**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-806
Ein cyf/Our ref JJ/00284/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

8 Mawrth 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Chwefror yn nodi manylion deiseb oddi wrth Bridgend Coalition of Disabled People (Deiseb P-05-806). Mae'r ddeiseb yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd.

Fel y Gweinidog â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, rydw i wedi ymrwymo i fynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol i gydraddoldeb ac i gynyddu lefelau cynhwysiant fel bod yr un cyfleoedd ar gael i bobl anabl â phawb arall. Rydw i'n dymuno gweld pobl anabl yn cael yr un mynediad at siopau, bwytai a mannau cyhoeddus eraill, sy'n rhywbeth y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ei gymryd yn ganiataol.

Er bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cynnwys darpariaeth y dylid cynllunio amgylcheddau a gwasanaethau i fod mor hygyrch â phosibl i bawb, mae'n amlwg bod cynnydd yn y maes yn llawer arafach nag yr hoffwn i. Rydw i'n deall nad yw'n bosibl efallai i rai siopau a busnesau llai mewn adeiladau hŷn wneud yr holl 'addasiadau rhesymol' y byddai'n ddelfrydol eu cael. Fodd bynnag, mae'n bosibl i'r mwyafrif wneud rhai newidiadau o leiaf, er mwyn gwneud eu busnesau'n fwy croesawus i bobl anabl.

Byddai dull cynhwysol o weithredu ynghyd ag agwedd gadarnhaol gan staff o fudd i bob cwsmer, nid y rhai anabl yn unig ond hefyd pobl â choetsis babis, pobl ag anafiadau dros dro, pobl â bagiau trwm, neu bobl hŷn sydd efallai angen help. Dylai busnesau sy'n cynnig gwasanaethau fel hyn gael eu cydnabod a'u gosod yn esiampl i eraill.

Mae'n ymddangos felly bod gan y cynllun arfaethedig ei rinweddau ac nid wyf yn synnu ei fod wedi ennyn cryn sylw. Rydw i'n gefnogol iawn i'r egwyddorion y tu ôl i'r cynnig hwn ac

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

rydw i'n awyddus i'r materion ymarferol fyddai ynghlwm â chynllun o'r fath gael eu harchwilio  Er enghraifft, pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal yr asesiadau, neu ai'r bwriad fyddai i fusnesau asesu eu hunain? A fyddai'n fwy ymarferol datblygu ateb digidol fel bod defnyddwyr gwasanaethau eu hunain yn gallu darparu sylwadau a graddfeydd ar hygyrchedd gwasanaethau?  Sut gellid monitro cynllun fel hyn a'i warchod rhag ymyriadau maleisus?

Mae'r rhain yn faterion rydw i'n hyderus y bydd y Pwyllgor Deisebau'n eu harchwilio gyda'r deisebwyr, ac edrychaf ymlaen at weld eich casgliadau.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip